OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3225

# Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) 2005

**Diwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol**

**6.**—(1) Diwygir darpariaethau Deddf Datblygu Twristiaeth 1969 a Deddf Twristiaeth (Ei Hyrwyddo Dramor) (Cymru) 1992(**1**) a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn unol â'r Atodlen honno ar y dyddiad trosglwyddo.

(2) Diwygir y deddfiadau a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn unol â'r Atodlen honno ar y dyddiad trosglwyddo.

(3) Mae'r diwygiadau i'r deddfiadau yn ymestyn i'r un graddau â'r ddarpariaeth yn y deddfiad sy'n cael ei ddiwygio.

(**1**) 1992 p. 26